‘THE MATCH THAT MATTERED’ Y GÊM O BWYS

Roedd yn fore Sadwrn braf, ac roedd y tîm o dan 12 yn barod am eu gêm rygbi pwysicaf y tymor. Roedd y tîm cyfan yn llawn cyffro – yn enwedig Jayden, eu hasgellwr o fri. Roedd Jayden wrth ei fodd gyda rygbi. Roedd yn mwynhau cyflymder y gêm, y gwaith tîm a’r teimlad o sgorio cais.

Heddiw, roedd yn benderfynol o roi ei orau glas. Chwythodd y chwiban, a dechreuodd y gêm. Saethodd Jayden i lawr y cae, gan osgoi taclau fel mellten. Ond yna, wrth iddo sefyll yn barod am sgrym, fe glywodd o – llais gan y tîm arall. “Pasia’r bêl, hogyn siocled!” dywedodd un chwaraewr yn wawdlyd.

Stopiodd Jayden yn stond. Roedd ei stumog yn troi. Doedd o erioed wedi clywed unrhyw beth tebyg i hynny ar y cae o’r blaen. Am eiliad, roedd yn teimlo’n fach, fel ei fod wedi colli egni yn gyfan gwbl. Edrychodd ar ei gyd-chwaraewyr. A wnaethon nhw ei glywed hefyd?

Parhaodd y gêm, ond roedd meddwl Jayden yn troi. A ddylai ddweud rhywbeth? A ddylai ei anwybyddu? Doedd o ddim eisiau siomi ei dîm, ond roedd y geiriau’n atseinio yn ei ben. Yn ystod yr hanner amser, eisteddodd Jayden yn dawel ar y fainc. Sylwodd ei ffrind gorau, Liam. “Ti’n iawn?” gofynnodd Liam.

Oedodd Jayden, yna bu iddo sibrwd beth ddigwyddodd. Trodd wyneb Liam yn goch gyda dicter. “Dydy hynny ddim yn iawn. Mae’n rhaid inni ddweud wrth yr Hyfforddwr.”

Fe wnaeth y tîm ymgynnull. Roedd rhai yn barod i roi gwybod i’r dyfarnwr. Dywedodd rhai eraill, “Dewch inni barhau i chwarae ac ennill.” Roedd Jayden rhwng dau feddwl. Doedd o ddim eisiau achosi trafferth – ond roedd hefyd yn gwybod nad oedd yn iawn

Cwestiynau Cynorthwyol ar gyfer Trafodaeth

- Pe bai chi oedd Jayden, beth fyddech chi’n ei wneud?
- Pe bai chi oedd Liam neu gyd-chwaraewr arall, sut fyddech chi’n cefnogi Jayden?
- Beth allai’r hyfforddwr neu’r dyfarnwr ei wneud i sicrhau bod rygbi yn parhau i fod yn deg ac yn barchus i bawb?